# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**High Flyers**

**Ysgol Gynradd Dafen**
**Lon Yr Ysgol**
**Llanelli**
**SA14 8LL**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/02/2020

Adroddia… ei gyhoeddi

Adroddiad terfynnol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynnol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae High Flyers yn darparu gofal sesiynol i hyd at 10 o blant. Mae'n gweithredu o adeilad hunangynhwysol ar dir Ysgol Gynradd Dafen, Llanelli. Mae'n gweithredu rhwng 8.50am a 11.20am a rhwng 12.20pm a 2.50pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Miranda Williams yw'r unigolyn cyfrifol a Ffion Bourne yw'r person â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gyllido i gynnig lleoliadau Dechrau'n Deg. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | **Da** |
| Gofal a Datblygiad | **Da** |
| Yr Amgylchedd | **Da** |
| Arwain a Rheoli | **Da** |

**1. Asesiad cyffredinol**

Gwelsom fod y plant sy'n mynychu High Flyers yn hapus ac yn frwdfrydig dros eu profiad dysgu. Maent yn cael gofal gan staff magwrus a chyson sy'n ymrwymedig i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r plant yn hapus ac yn amlwg yn mwynhau eu hamser yma. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, gydag amrywiaeth o ardaloedd diddorol ac adnoddau i wella eu chwarae a'u dysgu. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn hapus â chynnydd eu plant a'r gwasanaeth a ddarperir.

**2. Gwelliannau**

Mae'r unigolyn cofrestredig wedi cyflawni'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf mewn perthynas ag arwain a rheoli ac iechyd a diogelwch.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas ag arwain a rheoli. Mae'r rhain wedi'u nodi yng nghefn yr adroddiad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 1. Llesiant Da

**Crynodeb**

Mae'r staff yn gwrando ar y plant yn High Flyers, a gallant wneud dewisiadau. Maent yn hapus, yn ddiogel, wedi setlo ac yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd ac ag oedolion cyfarwydd.

**Ein canfyddiadau**

Wrth gyrraedd, gwnaeth plant ddewis yn hyderus o amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael iddynt, a symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Er enghraifft, bu un plentyn yn chwarae â'r anifeiliaid byd bach ar y carped cyn symud i ffwrdd o'r carped tuag at yr ardal chwarae rôl, gan ddod yn ôl at y carped yn gwisgo helmed dyn tân. Wrth gwblhau gweithgaredd coginio, gwnaeth y plant ddewis pa eisin lliw ac addurniadau roeddent am eu rhoi ar eu bisgeden. Gofynnodd y plant yn bendant am fwy o laeth yn ystod amser byrbryd, a gwnaethant ddweud wrth y staff pan oeddent wedi cael digon i'w fwyta a'i yfed. Dewisodd y plant y caneuon roeddent am eu canu yn ystod amser cylch, ac roeddent yn wên o glust i glust pan gafodd y gân a ddewiswyd ganddynt ei chanu.

Roedd y plant yn cyrraedd y gwasanaeth yn hapus, ac roeddent yn hapus ac wedi ymlacio yn ystod ein hymweliad. Roeddent yn gwneud ceisiadau i'r staff, ac roeddent yn hyderus y byddai'r staff yn ymateb yn gadarnhaol. Er enghraifft, gofynnodd y plant am gael chwarae â'r anifeiliaid byd bach, a chwarae mewn cafn yn llawn compost yn yr awyr agored. Roedd ceisiadau'r plant yn cael ymateb cadarnhaol gan y staff bob tro. Gwnaethant sgwrsio'n hapus yn ystod amser byrbryd, gan drafod eu cŵn anwes a'r ffaith nad oedd angen dymi arnynt mwyach.

Roedd y plant yn barod i gydweithredu ac yn ymddwyn yn dda. Roedd y plant hŷn yn rhyngweithio'n dda â'r plant eraill ac aelodau o'r staff. Roedd y plant iau yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn hapus neu'n ymuno yng ngemau plant eraill yn ôl eu dymuniad. Yn yr awyr agored, roedd y plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn y pwll tywod, gan rannu adnoddau. Roedd y plant yn rhoi mwythau i'r staff yn ddigymell ac yn eistedd ar eu gliniau wrth edrych ar lyfrau ac yn ystod amser stori. Byddent yn codi llaw yn frwdfrydig ar eu ffrindiau a gafodd eu casglu o'r gwasanaeth cyn iddyn nhw gael eu casglu.

Roedd y plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored, gan neidio i fyny ac i lawr wrth aros. Gwnaethant dreulio cryn dipyn o amser yn chwarae drwy lenwi cynhwysyddion yn y cafn tywod. Bloeddiodd un plentyn yn llawn cyffro wrth fynd i lawr y llithren dro ar ôl tro. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn caneuon actol Cymraeg yn fywiog yn ystod amser cylch, ac yn ystod amser stori gwnaethant ail-greu'r stori gan ddefnyddio pypedau. Roedd y plant yn falch o ddangos eu bisgedi wedi'u haddurno cyn eu bwyta'n awchus.

Wrth gyrraedd, gwnaeth y plant hongian eu cotiau a'u bagiau ar begiau lefel isel yn annibynnol. Gwnaethant gofrestru eu hunain drwy osod lluniau ohonynt eu hunain ar drên,

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

gan ddangos pa weithgareddau roeddent am helpu i'w gwneud, er enghraifft, dosbarthu tywelion papur pan fyddai'r plant yn brwsio eu dannedd. Roedd y plant yn golchi eu dwylo'n annibynnol cyn amser byrbryd, ac yn helpu i arllwys eu dŵr neu laeth eu hunain. Roedd y plant yn brwsio eu dannedd eu hunain, gydag un plentyn yn dosbarthu hancesi i'r plant eraill. Roedd y plant yn rhoi'r tywelion papur roeddent wedi eu defnyddio yn y bin priodol. Roeddent yn tacluso ar wahanol adegau, ac yn ceisio gwisgo eu cotiau eu hunain a chau sipiau eu cotiau gydag ychydig o help gan y staff.

Adroddiad terfynnol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau amrywiol ac ysgogol i'r plant. Maent yn diwallu anghenion y plant yn gyson am eu bod yn eu hadnabod yn dda ac yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig yn ystod y drefn bob dydd.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel, ac roedd ganddynt ddealltwriaeth ragorol o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios iddynt. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau. Roedd y rhieni a'r staff wedi llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn cael byrbryd a gwneud gweithgareddau coginio. Roedd y gwasanaeth yn hybu bwyta'n iach drwy roi ffrwythau i'r plant yn ystod amser byrbryd, a dŵr neu laeth i'w hyfed. Roedd y staff yn sicrhau bod ymarfer corff yn yr awyr agored yn rhan bwysig o'r sesiwn, ym mhob tywydd. Roedd y staff hefyd yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan mewn sesiynau ioga a dawns.

Roedd y staff wedi canmol y plant am ymddwyn yn dda ac wedi ymateb i'r plant a oedd am gael eu cofleidio neu am gael sicrwydd. Roeddent yn ymateb yn gadarnhaol i arwyddion di-eiriau megis plentyn yn codi ei freichiau gan ddangos ei fod am gael ei godi. Roedd y staff yn rhoi sylw i anghenion y plant, er enghraifft, yn gofyn i'r plant a oedd yn dysgu sut i ddefnyddio'r poti a oedd angen iddynt fynd i'r toiled. Roedd y staff yn modelu ymddygiad da drwy siarad yn garedig â'i gilydd ac â'r plant drwy gydol y sesiwn, gan gydymffurfio â'u polisi ymddygiad.

Roedd gan y staff wybodaeth dda am y plant yn eu gofal am eu bod yn gallu disgrifio hoffterau, cas bethau, anghenion a galluoedd unigol y plant. Roedd y staff yn casglu gwybodaeth am y plant yn eu gofal cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth ac roeddent yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i olrhain datblygiad y plant. Cafodd gweithgareddau eu cynllunio o gwmpas thema neu lyfr, gyda chyfraniadau gan y staff a'r plant. Roeddent yn dilyn y gweithdrefnau cywir mewn perthynas â phlant ag anghenion ychwanegol gan ddarparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Roedd y staff yn rhoi adborth ar lafar i'r rhieni a'r gofalwyr ar ddiwedd pob sesiwn, gan grybwyll y gweithgareddau a wnaed, y byrbrydau a fwytawyd a manylion newid cewynnau. Gwnaethant roi llyfrau cyswllt i rieni nad oeddent yn gallu dod i'r gwasanaeth yn aml, gan sicrhau bod y rhieni'n ymwybodol o'r gweithgareddau a wnaed gan eu plant, yr hyn roeddent wedi ei fwyta ac a oedd rhywun wedi newid eu cewynnau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn olau, yn lliwgar ac wedi'i addurno'n dda. Roedd y plant yn cael gafael ar amrywiaeth dda o deganau, offer, adnoddau a dodrefn o faint sy'n addas i blant yn hawdd. Mae'r arweinwyr yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw yn rheolaidd ac yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn cael gofal mewn adeilad diogel a glân. Roedd yr ystafell yn lân, yn daclus ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Caiff teganau eu glanhau'n rheolaidd, a chaiff unrhyw deganau wedi'u torri eu taflu gan roi rhai newydd yn eu lle. Roedd y drws i'r gwasanaeth yn cael ei gadw dan glo ac nid oedd ymwelwyr heb wahoddiad yn cael dod i mewn heb oruchwyliaeth. Roedd llyfr ymwelwyr ar waith ac yn cael ei ddefnyddio i gofnodi ymwelwyr â'r gwasanaeth. Roedd cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod larymau tân a mwg yn ogystal â'r system wresogi yn cael eu profi bob blwyddyn. Roedd y dyfeisiau trydanol wedi cael prawf PAT. Roedd y plant a'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd, ac roedd cofnodion cywir yn cael eu cadw. Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored yn cael eu cynnal, ac roedd risgiau'n cael eu nodi a'u dileu cyhyd â phosibl.

Roedd yr ystafell wedi cael ei threfnu i ddarparu ardaloedd i'r plant chwarae mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer pob un o feysydd y cyfnod sylfaen, megis ardal grefft, cornel ddarllen gyda bagiau ffa cyfforddus a chegin chwarae rôl. Roedd teganau ac adnoddau yn cael eu storio mewn unedau storio yr oedd y plant yn gallu cael gafael arnynt, ac yn cael eu labelu â lluniau. Roedd toiledau a sinciau bach ar gael i'r plant. Roedd yr ardal awyr agored wedi'i hamgáu ac yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Roedd teganau reidio, teganau cydbwysedd, llithren, cafn tywod ac adnoddau chwarae byd bach ar gael i'r plant. Roedd y plant yn gallu mynd i'r ardal awyr agored ym mhob tywydd gan fod ganddynt ganopi a oedd yn rhoi cysgod iddynt rhag y glaw a'r haul.

Roedd amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau ar gael i'r plant megis deunyddiau creadigol, deunyddiau synhwyraidd, teganau chwarae rôl a chwarae byd bach, a oedd yn briodol ar gyfer oedran y plant. Roedd teganau diwylliannol a theganau cyfleoedd cyfartal ar gael i'r plant, ac roeddent yn eu defnyddio bob dydd. Roedd adnoddau eraill yn cael eu defnyddio wrth edrych ar thema neu stori benodol megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Roedd y teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mewn cyflwr da.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli **Da**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi datblygu systemau a gwiriadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth, ac mae systemau ar waith ar gyfer adolygu ansawdd y gofal a ddarperir ganddynt. Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau da â'r rhieni.

### Ein canfyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben ar waith a oedd yn fanwl ac yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybod i AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) fod newid wedi bod o ran y person â chyfrifoldeb. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol gan y staff fel rhan o'u harferion beunyddiol. Er enghraifft, roedd y staff yn dilyn y dulliau a amlinellwyd ym mholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth drwy gydol ein hymweliad. Ymysg y polisïau newydd roedd polisïau yn ymwneud ag atal radicaleiddio, asthma, a'r defnydd o ffonau symudol a watshis clyfar.

Gwnaeth yr arweinwyr adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol a llunio adroddiad. Gwnaethant ddadansoddi'r sylwadau a gawsant gan y rhieni a'r plant ym mhob maes ac roeddent yn awyddus i wella eu gwasanaeth. Roedd y sylwadau o holiaduron y rhieni a'r plant yn gadarnhaol iawn, er enghraifft, “I like how approachable the staff are and how friendly and loving they are to the children.”

Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl ddogfennau perthnasol ar waith a bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd ffeil un aelod o'r staff yn cynnwys geirdaon staff na llun o'r unigolyn. Cafodd hyn ei unioni yn ystod yr arolygiad. Roedd gan y staff gymwysterau addas. Roedd arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cynnal ar y staff ac roeddent yn nodi anghenion hyfforddi a thargedau datblygu. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar y rhaglen brwsio dannedd genedlaethol, anghenion arbennig, asesu risgiau a chyd-feddwl parhaus a lles emosiynol.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Roeddent yn hapus â'r wybodaeth a gawsant cyn i'w plentyn ddechrau yn y gwasanaeth yn ogystal â'r wybodaeth a gawsant am gynnydd eu plentyn. Dywedodd y rhieni eu bod yn arbennig o fodlon ar ddatblygiad iaith a lleferydd eu plant, a'u bod yn hapus bod y staff yn helpu i ddysgu'r plant sut i ddefnyddio'r toiled. Roedd y staff yn trosglwyddo gwybodaeth i'r ysgolion bwydo bob tymor ynghylch y plant sy'n pontio i'r ysgolion.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

**Argymhellion ar gyfer gwella**

Rydym yn argymell y canlynol;

- cadw geirdaon y staff yn ffeiliau'r staff;
- cadw lluniau o'r staff yn ffeiliau'r staff;
- sicrhau y rhoddir gwybod i AGC am newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth megis newid y person â chyfrifoldeb.

Adroddiad terfynnol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd adborth yn ddiweddarach.

- Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 7 Chwefror am gyfnod o 3 awr a hanner.
- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, cofnodion hyfforddi, cofnodion damweiniau a digwyddiadau a chofnodion cynllunio.
- Gwnaethom arsylwi ar y plant gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff.
- Gwnaethom siarad â'r unigolyn cofrestredig, y plant, y rhieni, y gofalwyr a'r staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynnol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Unigolyn Cyfrifol | Miranda Williams |
| Person â chyfrifoldeb | Ffion Bourne |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 10 |
| Ystod oedran y plant | 2-3 oed |
| Oriau agor | Rhwng 8.50am a 11.20am a rhwng 12.20pm a 2.50pm<br>O ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Mawrth 2017 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 7 Chwefror 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Adroddiad terfynnol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/03/2020